Prosiectau Allweddol

Y Rhaglen 5 Mlynedd o Brosiectau Trafnidiaeth

Er mwyn llunio rhestr faith o brosiectau posibl edrychwyd ar adroddiadau cynllunio trafnidiaeth blaenorol, dogfennau datblygu lleol, strategaethau adfywio lleol, a chynigion awdurdodau lleol, Gweithgor Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC, cyrff trafnidiaeth gymunedol, grwpiau pwyso a chyrff eraill sydd â diddordeb.

Cafodd y rhestr hir o brosiectau ei phwyso a'i mesur yn erbyn set o feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd y prosiectau sy'n cyfateb orau i'r meini prawf yn cael eu cynnwys yn y rhaglen pum mlynedd. Bydd y rhaglen pum mlynedd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf drafft ym mis Rhagfyr 2008 ac yn ei ffurf derfynol ym mis Mawrth 2009. Bydd yn cwmpasu'r cyfnod pum mlynedd o 2010/11 i 2014/15.

Y prosiectau allweddol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC yw:

- **Gwelliannau i'r Gwasanaeth Bysiau**
- **Gwelliannau i Drafnidiaeth Gymunedol**
- **Gwelliannau yn Hygyrchedd Cefn Gwlad**
- **Gwelliannau yn Hygyrchedd Hamdden a Thwristiaeth**
- **Gwella Gwasanaethau a Chyfleusterau Rheilffyrdd**
- **Cynlluniau Beicio a Throedffyrdd Lleol**
- **Cysylltiadau gyda'r Rhwydweithiau Beicio a Cherdded Cenedlaethol a Rhanbarthol**
- **Cynlluniau Priffyrdd (heblaw Cefnffyrdd)**
- **Rheoli Trafnidiaeth/ Gostegu Traffig/ Prosiectau Diogelwch**
- **Parcio gan gynnwys Parcio a Theithio/Parcio a Rhannu**
- **Cludo Nwyddau (Ffyrdd a Rheilffyrdd)**
- **Prosiectau Cysylltiedig ag Adfywio**

Yn ychwanegol, bydd cyrff eraill yn rhoi eu cefnogaeth i sicrhau bod y gwelliannau trafnidiaeth hyn yn cael eu gwireddu, cyrff fel Network Rail, rhaglenni cyllid yr Undeb Ewropeaidd, cyllidebau adfywio a phrosiectau cefnffyrdd.